PAM DEWIS TGAU

# CELF A DYLUNIO?

Bydd cymhwyster CBAC TGAU Celf a Dylunio yn eich cefnogi i:

- archwilio gwaith artistiaid a dylunwyr i helpu i ddatblygu eich talent greadigol eich hun
- datblygu sgiliau creadigol fel y gallwch gynllunio, dyfeisio a dylunio eich gwaith eich hun
- ennill sgiliau ymarferol, gan ddod yn fwyfwy soffistigedig a rheoledig
- adfyfyrio ar eich gwaith eich hunain, ei fireinio a'i werthuso
- archwilio amrywiaeth, hunaniaeth a diwylliant

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Dyma'r llwybrau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster TGAU Celf a Dylunio:

- Celf, crefft a dylunio
- Celfyddyd gain
- Cyfathrebu graffig
- Dylunio tecstilau
- Dylunio tri dimensiwn
- Ffotograffiaeth

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

### Uned 1 - Portffolio

Math o Asesiad: Asesiad di-arholiad
60% o'r cymhwyster: 120 marc

Mae'r uned hon wedi'i llunio i'ch galluogi i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o fewn y broses greadigol. Byddwch yn cael eich annog i wneud darganfyddiadau personol a chymryd risgiau creadigol drwy eich ymchwiliadau eich hun. Bydd yn ofynnol i chi gynhyrchu portffolio:

- drwy broject parhaus sy'n dangos datblygiad, mireinio, adfyfyrio a chyflwyniad
- wedi'i osod yn fewnol, mewn ymgynghoriad â'ch athro, yn seiliedig ar thema, cysyniad neu friff dylunio penodol.

### Uned 2 – Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol

Math o Asesiad: Asesiad Di-arholiad
40% o'r cymhwyster: 80 marc

Mae'r Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol yn cynnwys pum 'syniad mawr' trosfwaol. Rhaid i chi ddewis un syniad mawr a defnyddio ysgogiadau a roddir fel man cychwyn i lywio eich gwaith.

Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil cyd-destunol ac ymarferol ac astudiaethau ategol yn ystod cyfnod paratoadol. Bydd hyn yn llywio eich ymateb yn ystod cyfnod 10 awr o waith 'dwys a mawl'.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Byddwch yn dysgu defnyddio ystod eang o gyfryngau, technegau, offer, technolegau a phrosesau digidol yn dibynnu ar ba lwybr rydych chi'n ei ddewis. Byddwch yn datblygu'r sgiliau i greu arteffactau – p'un ai paentio, dylunio ffasiwn, creu cynnwys, ffotograffiaeth, neu fodelau pensaernïol (i enwi ambell bosibilrwydd). Byddwch yn dysgu sut i ddatblygu prosesau creadigol a dulliau gweithio i ddatblygu'r canlyniadau gweledol rydych chi'n eu dewis.

Byddwch hefyd yn dysgu ac yn deall am weithio'n annibynnol (gyda chefnogaeth athro) i ddatblygu eich syniadau eich hun a bodloni terfynau amser a bennir ar gyfer eich gwaith. Drwy hyn oll, byddwch yn meithrin ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd mewn celf a dylunio yn ogystal â dealltwriaeth ddyfnach o ddiwylliant a hunaniaeth drwy fynd i'r afael â'ch gwaith datblygol.

## GYRFAOEDD MEWN CELF A DYLUNIO

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Celf a Dylunio ar lefel Safon Uwch. Bydd hefyd yn darparu cwrs astudio boddhaus i chi os byddwch yn dewis peidio â symud ymlaen i astudio ymhellach.

Mae'r posibiliadau gyrfa a ddaw drwy astudio celf a dylunio yn helaeth, mae rhai wedi'u rhestru yma:

Hysbysebu, Animeiddiwr, Pensaer, Therapydd Celf, Dylunydd Llyfrau, Cartwnydd, Ceramegydd, Sinematograffydd, Dylunydd Gwisgoedd, Artist Digidol, Dylunydd Arddangosfeydd, Dylunydd Dodrefn, Dylunydd Ffasiwn, Arlunydd Cain, Ymchwilydd Ffilm, Steilydd Bwyd, Arlunydd Graffig, Dylunydd Gemau, Cynllunydd Tai, Darlunydd, Dylunydd Gemwaith, Dylunydd Dillad Gwau, Pensaer Tirwedd, Dylunydd Goleuo, Artist Coluro, Dylunydd Meddygol, Gwneuthurwr Modelau, Murlunydd, Dylunydd Cynnyrch, Ffotograffydd, Crochenydd, Gwneuthurwr Pypedau, Gwneuthurwr Printiau, Dylunydd Cynhyrchu, Cerflunydd, Gof Arian, Artist Effeithiau Arbennig, Artist Gwydr Lliw, Artist Tatŵ, Athro, Dylunydd Theatr, Cyfarwyddwr Teledu, Dylunydd Tecstilau, Teipograffydd, Dylunydd Trefol, Artist Fideo.

**DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!**

